

Ysgol Cybi

Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion / Schools Information Security Policy

(Fersiwn 2, Hydref 2021 / Version 2, October 2021)

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rheoli a'i diogelu'n briodol a'i bod yn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data mewn perthynas â diogelwch gwybodaeth.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar tudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

This policy outlines what the school needs to do to ensure that personal information is properly managed and protected and that it ensures compliance with data protection legislation in relation to information security.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / Version	Dyddiad / Date	Crynodeb o newidiadau / Summary of changes	Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / Date Accepted by Board of Governors
F1/V1	Ionawr 2021 / January 2021	Polisi newydd / New policy.	
F2/V2	Hydref 2021 / October 2021	Newid cyfeiriadau at GDPR i UK GDPR ac ychwanegiadau TG / Change reference to GDPR to UK GDPR and additional IT information	

Dyddiad yr adolygiad nesaf / Date of next review	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / This policy will be reviewed in:	Hydref 2023 / October 2023
Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / The review will be undertaken by:	Swydddog Diogelu Data Ysgolion / Schools Data Protection Officer

Manylion Cyswllt:

Contact Details:

Swydddog Diogelu Data Ysgolion

Schools Data Protection Officer

E-bost:

dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

E-mail:

dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Telephone: 01248 751833

Cyfeiriad:

Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Address:

Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.

Dogfen:

Templed polisi ar y ddeddfwriaeth diogelu data sef y *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018* mewn perthynas â diogelwch gwybodaeth. / *Policy template on the data protection*

Document:

legislation namely the UK General Data Protection Regulation (UK GDPR) and the Data Protection Act 2018 in relation to information security.

Cyfrifoldeb:

Cyfrifoldeb corff llywodraethu'r ysgol yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn cadw gwybodaeth yn ddiogel. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod holl staff yr ysgol yn gweithredu ac yn cydymffurfio. / *It is the responsibility of the school governing body to ensure procedures are in place to ensure that the school keeps information secure. It is the responsibility of the Headteacher to ensure implementation and compliance by all school staff.*

Responsibility:

Cynnwys

Tudalen

1. Datganiad Polisi

4

2. Sgôp	5
3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau	5
4. Diffiniadau	5
5. Cyfrifoldebau	7
5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol	7
5.2. Pennaeth (a/neu Berson sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data o fewn yr Ysgol)	7
5.3. Holl Staff yr Ysgol	8
5.4. Swydddog Diogelu Data Ysgolion	8
6. Dosbarthu Gwybodaeth Bersonol	8
7. Statws Cofnod	9
8. Diogelwch Mynediad	10
9. Cyfrineiriau a Manylion Mewngofnodi	11
10. Dyfeisiau Cludadwy a Symudol	12
11. Defnyddio Dyfeisiau Personol	13
12. Amddiffyn rhag Meddalwedd Maleisus a Rhaglenni Diangen	14
13. Diogelwch Storio	14
13.1. Cofnodion Papur	14
13.2. Cofnodion Electronig	15
14. Rhannu Gwybodaeth yn Ddiogel	15
14.1. Dros E-bost	15
14.1.1 Cyfrif E-bost HWB- amgryptio	16
14.1.2 Mesurau Diogelwch E-bost	16
14.2. Drwy'r Post	17
14.3. Dros y Ffôn	17
14.4. Wyneb i Wyneb	17
15. Cludo Gwybodaeth yn Ddiogel	18
16. Cael Gwared â Gwybodaeth Bersonol yn Ddiogel	18
17. Cael Gwared âg Offer TGCh Segur yn Ddiogel	19
18. Systemau Etifeddïaeth	19
19. Gweithio Gartref	19
20. Proseswyr Data	20
21. Gweithredu Systemau	21
22. Mynediad Trydydd Parti o Bell	22
23. Digwyddiadau Diogelwch Data	22
24. Aseu Risgiau Gwybodaeth, Adfer Trychinebau a Pharhad Busnes	24
25. Gwiriadau ac Archwiliadau	24
26. Torri'r Polisi	24
27. Adolygiad o Drefniadau Polisi a Goruchwyllo	25
English Version	26

1. Datganiad Polisi

Nod deddfwriaeth diogelu data yw diogelu preifatrwydd personol a hawliau unigolion y ceir, y storir, y prosesir neu a gyflenwir data amdanynt. Mae'r *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* yn mynnu bod gan sefydliadau **fesurau diogelwch technegol priodol** i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel a'i ddiogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol.

Er mwyn gweithredu'n effeithlon, rhaid i'r ysgol gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol am unigolion y mae'n gweithio gyda nhw. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddi gasglu, defnyddio a rhannu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru.

Nod y polisi hwn yw diogelu cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd gwybodaeth bersonol. Mae'r ysgol wedi ymrwmo'n llwyr i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau diogelu data ac i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu'n ddiogel a'i bod yn cael ei rheoli a'i diogelu'n briodol i sicrhau na achosir unrhyw niwed na gofid i unigolion.

Bydd yr ysgol yn sicrhau:

- bod yr holl ofynion rheoliadol a deddfwriaethol yn cael eu bodloni'n llawn;
- bod gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu rhag mynediad heb awdurdod a'i diogelu rhag achosion posibl o dorri cyfrinachedd;
- bod gan yr holl asedau gwybodaeth, cyfleusterau, systemau a dyfeisiau TG fesurau diogelwch priodol ar waith ac fe'u diogelir rhag difrod, colled neu gamddefnydd;
- cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch parhaus systemau a gwasanaethau prosesu;
- bod mesurau, safonau a rheolaethau diogelwch priodol ar waith i atal data personol rhag cael ei newid neu ei ddatgelu'n ddamweiniol;
- bod amgylchedd diogel y gellir ymddiried ynddo ar gyfer rheoli a storio gwybodaeth ar waith;
- bod y gofynion busnes ar gyfer argaeledd gwybodaeth a systemau gwybodaeth yn cael eu bodloni;
- risgiau'n cael eu nodi a bod rheolaethau priodol yn cael eu gweithredu a'u dogfennu;
- bod achosion posibl o dor-rheolau gwybodaeth yn cael eu hadrodd a'u hymchwilio;
- bod proses ar waith ar gyfer profi, asesu, monitro, archwilio a gwerthuso effeithiolrwydd mesurau ac arferion technegol a threfniadol yn rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch y prosesu a'r amddiffyn gwybodaeth bersonol;
- lle y bo'n bosibl, dylai gwybodaeth bersonol gael ei ffugenwi neu ei hamgryptio a hefyd ei dienwi os yw'n briodol;
- mae eglurder ynghylch y cyfrifoldebau personol ynghylch diogelwch gwybodaeth a ddisgwylir gan staff yr ysgol;
- bod addysg a hyfforddiant diogelwch gwybodaeth ar gael i'r holl staff;
- bod mynediad/ceisiadau gan drydydd partïon yn cael eu hystyried yn ofalus cyn caniatáu mynediad at ddata.

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff, gan gynnwys gweithwyr dros dro, contractwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth, llywodraethwyr ysgol ac unrhyw drydydd partïon sydd wedi'u hawdurdodi i gael gafael ar wybodaeth, systemau gwybodaeth neu offer TGCh yr ysgol.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl wybodaeth bersonol a grëwyd neu a gadwir gan yr ysgol ym mha fformat bynnag (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, bapur, electronig, e-bost, ffilm, fideo, CCTV, delweddau ffotograffig) a sut bynnag y caiff ei storio (er enghraifft system/cronfa ddata/rhwydwaith TGCh, gyriant a rennir, strwythur ffeilio, e-bost, cypyrddau, silffoedd a droriau ffeilio).

Mae hyn hefyd yn cynnwys mesurau diogelwch ffisegol a sefydliadol ac mae hefyd yn cynnwys seiber-ddiogelwch (diogelu rhwydweithiau a systemau gwybodaeth rhag ymosodiad).

3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Y brif ddeddfwriaeth diogelu data y mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â hi yw'r *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018*.

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar godau ymarfer perthnasol ac ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion; Cyfnodau Cadw Cofnodion; Polisi E-bost Staff Ysgolion, Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion; Pholisï Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion; Gweithdrefn ar gyfer Rhannu Gwybodaeth gydag Awdurdodau'r Heddlu yn y Deyrnas Unedig (Gwynedd a Môn); Polisi Prosesu Data Ysgolion a Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifdy Ynys Môn*. Mae'r rhain i gyd ar gael ar tudalen Diogelu Data ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

4. Diffiniadau

Data personol	Unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn naturiol sydd wedi ei adnabod neu a ellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r wybodaeth honno. Gellir ei storio'n electronig, ar gyfrifiadur neu mewn systemau ffeilio papur.
Data categori arbennig	Gwybodaeth ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg (i adnabod unigolyn) unigolyn, a gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol unigolyn. Data categori arbennig yw data personol sydd angen amddiffyniad bellach oherwydd ei fod yn sensitif.
Digwyddiad diogelwch data	Toriad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu neu fynediad anawdurdodedig at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)	Yr ICO yw corff annibynnol y DU (awdurdod goruchwylio) a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth. Rôl yr ICO yw cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â chwynion ynghylch problemau, cael gafael ar wybodaeth bersonol gan sefydliad, neu os oes pryderon ynghylch sut mae sefydliad wedi ymdrin â gwybodaeth - os yw'r wybodaeth yn anghywir, wedi'i cholli neu ei datgelu i rywun arall. Adroddir am achosion o dorri data sy'n risg uchel i unigolion i'r ICO.
Rheolydd data	Y bobl neu'r sefydliadau sy'n pennu'r pwrpasau dros brosesu data personol, ac ym mha fodd y caiff ei brosesu. Mae gan y rheolydd data gyfrifoldeb i sefydlu ymarferion a pholisïau yn unol â deddfwriaeth. Yr ysgol yw'r rheolydd data.
Defnyddwyr data	Yn cynnwys gweithwyr sydd â'u gwaith yn ymwneud â data personol. Mae gan ddefnyddwyr data ddyletswydd i ddiogelu'r wybodaeth y maent yn ymdrin â hi drwy ddilyn polisïau diogelu data a diogelwch bob amser. Mae staff a gyflogir gan ysgolion yn ddefnyddwyr data.
Proseswyr data	Yn cynnwys unrhyw berson sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd data (heblaw am y sawl sy'n gyflogedig gan y rheolydd data). Gall proseswyr data gynnwys cyflenwyr sy'n ymdrin â data personol ar ran yr ysgol.
Gwrthrych y data	Yr unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef neu hi.
Swyddog Diogelu Data	Mae DPO yn helpu i fonitro cydymffurfiaeth fewnol, hysbysu a chynghori ar rwymedigaethau diogelu data, rhoi cyngor ynghylch Aseidiadau Effaith Diogelu Data (DPIAau) a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer gwrthrychau data a'r awdurdod goruchwylio.
Gwybodaeth Trydydd Parti	Trydydd parti yw rhywun nad yw'n rheolwr data, yn brosesydd data nac yn wrthrych i'r data.
Prosesu gwybodaeth	Casglu, derbyn, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, cadw, diwygio, addasu, newid, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, cael gwared â gwybodaeth, ei defnyddio neu wneud unrhyw beth â hi.
Ffugenwi	Y broses lle prosesir gwybodaeth bersonol mewn ffordd na ellir ei defnyddio i adnabod unigolyn heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, a gadwir ar wahân ac yn amodol ar fesurau technegol a sefydliadol i sicrhau na ellir priodoli gwybodaeth bersonol i unigolyn a ellir ei adnabod.
Gwybodaeth ddiennw	Cael gwared â gwybodaeth a ellir ei defnyddio i adnabod rhywun oddi ar ryw beth (megis data cyfrifiadur) fel na ellir gwybod beth oedd y ffynhonnell wreiddiol na'i hadnabod.
Systemau Gwybodaeth	Cyfrifiaduron prosesu gwybodaeth neu systemau cyfathrebu data.
Cywirdeb	Cadw'r wybodaeth yn gyflawn, yn gywir ac yn ddilys.
Risg	Effaith ansicrwydd ar amcanion. Risgiau i unigolion: y potensial am ddifrod neu drallod. Nodweddir risg yn aml gan gyfeirio at "ddigwyddiadau" a "chanlyniadau" posibl, neu gyfuniad o'r rhain.

Anawdurdodedig	Heb hawl cyfreithlon.
Storio cwmwl	Mae storio cwmwl yn fodel cyfrifiadura cwmwl lle caiff data ei storio ar weinyddion o bell a gyrchir o'r rhyngwrwd, neu "gwmwl". Mae'n cael ei gynnal, ei weithredu a'i reoli gan ddarparwr gwasanaeth storio cwmwl ar weinyddion storio sy'n cael eu hadeiladu ar dechnegau rhithiol.
Ap	Mae'r gair "ap" yn dalfyriad ar gyfer "application" yn y Saesneg. Mae'n ddarn o feddalwedd sy'n gallu rhedeg drwy borwr gwe neu all-lein ar gyfrifiadur, ac ar ffôn clyfar, tabled neu ddyfeisiau electronig eraill.

5. Cyfrifoldebau

5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol

Corff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am:

- monitro cydymffurfiad ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol ynglŷn â'r polisi yma;
- monitro perfformiad mesurau diogelwch yr ysgol yn ystod ymweliadau diddordeb arbennig; drwy adroddiadau'r Pennaeth i lywodraethwyr ac arsylwi wrth ymweld â'r ysgol;
- sicrhau bod yr ysgol yn gallu tystiolaethu cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth diogelu data.

5.2. Pennaeth (a/neu Berson sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data o fewn yr Ysgol)

Y Pennaeth a/neu'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu data o fewn yr ysgol sy'n gyfrifol am:

- sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu a hyrwyddo dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn a'r holl bolisiâu sy'n ymwneud â diogelu a diogelwch data;
- monitro'r broses o weithredu'r trefniadau polisi a diogelwch;
- sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn yr ysgol yn cael ei chadw a'i phrosesu yn unol â'r *UK GDPR a Deddf Diogelu Data 2018*;
- sicrhau bod proses ar waith i ddiogelu'r holl wybodaeth bersonol a chategori arbennig yn yr ysgol;
- rheoli a monitro risgiau ac asedau gwybodaeth o fewn yr ysgol;
- sicrhau bod proses gadarn ar waith i ganfod a nodi achosion o dor-rheolau data; ymchwilio ac asesu achosion o dor-rheolau data gan gynnwys risgiau a rhannu unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data gyda'r Swydddog Diogelu Data Ysgolion;
- sicrhau bod yr holl staff yn cydymffurfio â'r *Cyfnodau Cadw Cofnodion Ysgolion* a bod yr ysgol yn cynnal gweithgareddau cynnal a chadw rheolaidd;
- pennu lefel y mynediad sydd i'w roi i unigolion penodol;
- sicrhau bod lefelau dosbarthiad yn cael eu defnyddio'n briodol;
- cynnal archwiliadau diogelwch gwybodaeth rheolaidd a rhannu canfyddiadau gyda chorff llywodraethu'r ysgol a gyda staff yr ysgol;
- sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol ar gyfer y systemau y maent yn eu defnyddio.

5.3. Holl Staff yr Ysgol

Mae'r holl staff sy'n cael eu cyflogi neu'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr dosbarth a staff cymorth busnes, yn gyfrifol am:

- sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn a'r holl bolisiau sy'n ymwneud â diogelu a diogelwch data;
- sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw a'i phrosesu yn unol â'r *UK GDPR a Deddf Diogelu Data 2018*;
- ymdrin â gwybodaeth yn briodol ac yn unol â'r lefelau dosbarthu;
- rhoi gwybod ar unwaith am yr holl achosion gwirioneddol, tybiedig, dan fygythiad neu achosion posibl o dor-rheolau data i'r Pennaeth a/neu'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol;
- rhoi gwybod i'r Pennaeth ar unwaith am unrhyw ddyfeisiau a gollir neu a gaiff eu dwyn;
- deall pa wybodaeth y maent yn ei defnyddio, sut y dylid ei thrin, ei storio a'i throsglwyddo'n amddiffynnol;
- deall pa weithdrefnau, safonau a phrotocolau sy'n bodoli ar gyfer rhannu gwybodaeth ag eraill;
- cydymffurfio'n llawn â'r *Cyfnodau Cadw Cofnodion Ysgolion*;
- ymgymryd â'r holl hyfforddiant a gynhigir ar systemau a dyfeisiau.

5.4. Swydddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r Swydddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- roi cyngor ac arweiniad i'r ysgol ynghylch diogelu a diogelwch gwybodaeth;
- monitro gweithrediad a chydymffurfiaeth y polisi a monitro trefniadau diogelwch o fewn yr ysgol;
- cefnogi'r ysgol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu bryderon sy'n codi o archwiliadau diogelwch gwybodaeth;
- cefnogi'r ysgol i sicrhau bod cytundebau a chontractau priodol ar waith gyda phroseswyr data i sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth priodol ar waith;
- darparu cyngor a chymorth ac arwain ar adrodd am achosion o dor-rheolau data.

6. **Dosbarthu Gwybodaeth Bersonol**

Bydd yr ysgol yn defnyddio rheolaethau dosbarthu gwybodaeth priodol ar gyfer gwybodaeth bersonol a sensitif yn seiliedig ar dermau dosbarthu data (SWYDDOGOL neu SWYDDOGOL-SENSITIF).

Pennir y categori dosbarthu gwybodaeth ar y niwed a allai ddeillio o golli neu ddatgelu'r wybodaeth heb awdurdod. Categori dosbarthu gwybodaeth sy'n pennu sut y mae'n rhaid diogelu/trin gwybodaeth.

Awduron ac anfonwyr dogfennau sy'n gyfrifol am neilltuo categori dosbarthu i'r dogfennau y maent yn eu creu a'u rhannu a marcio'r ddogfen yn amddiffynnol.

Categori Dosbarthu	Effaith os caiff yr wybodaeth ei cholli neu ei datgelu i bobl anawdurdodedig	Enghreifftiau o Wybodaeth
SWYDDOGOL	Bydd bron yr holl wybodaeth y daw'r ysgol i gysylltiad â hi yn ystod y diwrnod gwaith yn wybodaeth SWYDDOGOL. Fodd bynnag, mae gwybodaeth SWYDDOGOL hefyd yn cynnwys data personol sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd na fyddai, pe bai'n cael ei ddatgelu heb ganiatâd neu golled, yn achosi niwed neu ofid i unrhyw unigolyn.	Adroddiadau rheolaidd, adroddiadau blynyddol cyhoeddus, data all-droi ar gyfer dangosyddion perfformiad allweddol, gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd e.e. gwybodaeth ar wefan yr ysgol; enwau cyflogeion a theitlau swyddi a gwybodaeth nad yw'n fasnachol sensitif.
SWYDDOGOL SENSITIF	<ul style="list-style-type: none"> Achosi niwed neu ofid i unigolion; Torri cyfyngiadau statudol ar ddatgelu gwybodaeth; Byddai'n arwain at dorri hyder i drydydd partïon (lle nad yw gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd); Achosi niwed neu ofid sylweddol i unigolion neu grwpiau; Rhagfarnu'r ymchwiliad neu hwyluso'r gwaith o gomisiynu troseddau. 	Gwybodaeth am ddisgyblion neu staff y mae gan yr ysgol ddyletswydd gofal drosti e.e. enwau, cyfeiriadau, cofnod disgyblion.

Pan benderfynir pa gategori dosbarthu sy'n berthnasol i wybodaeth, mae angen cyfleu hyn drwy arddangos y categori dosbarthu ar y ddogfen neu'r ffeil. Mae angen rhoi hyn mewn man amlwg, er enghraifft:

- dogfennau - pennawd pob tudalen;
- ffeiliau a ffolderi - ar feingefn neu flaen y ffolder;
- negeseuon e-bost - yn y pennawd pwnc;
- cronfeydd data - lle bo'n bosibl, marcio gwybodaeth a gynhyrchir neu a grëwyd o gronfeydd data neu ddefnyddio meddalwedd adrodd yn amddiffynol.

7. Statws Cofnod

Bydd yr ysgol yn defnyddio'r statws canlynol i farcio cofnodion yn ôl pwysigrwydd:

Hanfodol	Cofnodion sy'n hanfodol i weithrediad parhaus yr ysgol a'r cofnodion hynny sy'n diogelu hawliau a buddiannau'r ysgol, cyflogeion, disgyblion a'r cyhoedd e.e. contractau.
Pwysig	Cofnodion sy'n angenrheidiol ar gyfer parhau â gweithrediad yr ysgol ac a all gynnwys gwybodaeth i gefnogi cofnodion hanfodol neu a allai fod o werth hanesyddol e.e. polisi.
Defnyddiol	Cofnodion a all fod yn hanfodol neu'n bwysig i aelodau staff ond nad ydynt o fawr o werth i'r ysgol. Gall fod o werth hanesyddol e.e. gohebiaeth.

Ddim yn hanfodol	Gohebiaeth ddarfodol, yn gwbl wybodaeth gyda gwerth amser byr iawn. Yn cynnwys cyhoeddiadau mewnol, hysbysiad o weithgareddau gweithwyr, gweithgareddau busnes arferol a gwahoddiadau i ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith.
-------------------------	---

8. Diogelwch Mynediad

Bydd yr holl ddata sy'n cael ei storio ar systemau TG a chofnodion papur yr ysgol ar gael i aelodau unigol o staff sydd ag angen dilys am fynediad yn unig. Rhaid i holl ddefnyddwyr systemau gwybodaeth ysgolion gael yr awdurdod i gael gafael ar wybodaeth bersonol a dim ond at y dibenion awdurdodedig.

Bydd unigolion awdurdodedig ond yn caniatáu i staff eraill yr ysgol gael gafael ar wybodaeth bersonol os oes ganddynt yr awdurdodiad priodol hefyd. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei diogelu rhag mynediad heb awdurdod.

Rhaid i fynediad at systemau a data fod â lefelau priodol o ddiogelwch gwybodaeth. Bydd cyfrifon defnyddwyr ysgol ond yn caniatáu mynediad i feysydd sy'n briodol i swydd a chyfrifoldebau deiliad y cyfrif.

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelwch yr offer a neilltuir iddynt neu a ddefnyddir ganddynt ac ni ddylai ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio gan unrhyw un oni bai am yn unol â'r polisi hwn. Er mwyn lleihau'r risg o ddefnyddio heb awdurdod neu ddwyn, ni ddylid gadael offer heb oruchwyliaeth os yw hynny'n bosibl o gwbl. Os oes angen gadael offer heb oruchwyliaeth, dylid ei bweru neu ei gloi i atal mynediad.

Bydd cyfrifiaduron, sgriniau, dyfeisiau symudol a dyfeisiau electronig eraill gydag arddangosiadau a dyfeisiau mewnbynnu defnyddwyr (e.e. llygoden, bysellfwrdd, sgrin gyffwrdd ac ati) yn cael eu diogelu drwy gael eu gosod i gloi neu gysgu a fydd yn actifadu ar ôl cyfnod o anweithgarwch. Bydd angen cyfrinair neu god cyfrin i ddatgloi neu ddeffro. Ni fydd staff yn newid y cyfnod amser hwn neu'n analluogi'r clo. Bydd staff hefyd yn cloi cyfrifiaduron, sgriniau a dyfeisiau electronig yn gorfforol os byddant yn gadael eu desgiau neu weithfannau am gyfnod o amser.

Wrth osod gweithle, dylai staff bob amser ystyried a allai personau anawdurdodedig arsylwi ar wybodaeth sy'n cael ei gweld neu ei chreu, e.e. drwy ffenestr. Dylid sicrhau na all unrhyw bersonél anawdurdodedig weld sgriniau cyfrifiadurol (e.e. sgrin gyfrifiadurol mewn derbynfa).

Bydd yr holl ddrysau allanol i adeilad yr ysgol yn cael eu cloi BOB amser, gan mai mynediad rheoledig i adeiladau yw'r llinell ddiogelwch gyntaf. Os oes gan weithfan ddrws y gellir ei gloi, rhaid ei gloi pan nad yw'n cael ei ddefnyddio, neu os na chaiff oruchwyliaeth am gyfnod o amser, oni bai ei bod yn allanfa frys.

Ni ddylid storio papurau, cyfryngau y gellir eu symud neu offer TG ger ffenestri'r llawr gwaelod. Lle nad oes modd osgoi hyn, dylid cloi ffenestri pan fydd y gweithle'n wag a chau bleindiau. Mae angen i staff yr ysgol gynnal desg glir lle bynnag y bo'n bosibl.

Dylai manau diogel priodol fod ar gael yn yr ysgol i gynnal sgysiau preifat rhwng staff, disgyblion, rhieni/y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant ac ymwelwyr e.e. derbynfeydd sy'n

addas i rannu gwybodaeth bersonol gyda dim ond y rhai y mae angen iddynt fod yn rhan o'r sgwrs heb y risg y bydd eraill yn clywed.

Ni ddylid trafod gwybodaeth bersonol pobl eraill na'i rhannu mewn manau cyhoeddus lle gall unigolion na ddylent dderbyn yr wybodaeth bersonol glywed.

Rhaid i bob ymwelydd â'r ysgol fewngofnodi a gwisgo bathodyn adnabod ymwelwyr tra byddant ar safle'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys rhieni, swyddogion cymorth, contractwyr, staff awdurdodau lleol ac unrhyw berson arall nad yw'n staff ysgol. Dylai ymwelwyr gael eu herio gan staff yr ysgol os nad oes modd eu hadnabod neu os cânt eu gadael ar eu pennau eu hunain mewn ardaloedd lle gellir gweld neu gyrchu gwybodaeth bersonol. Ni ddylai ymwelwyr gael mynediad heb oruchwyliaeth at wybodaeth bersonol ar unrhyw adeg.

9. Cyfrineiriau a Manylion Mewngofnodi

Mae angen i bob dyfais electronig a system TG sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol gael eu diogelu gan gyfrinair gyda mynediad yn cael ei ddarparu i bersonau awdurdodedig yn unig. Bydd gan ddefnyddwyr awdurdodedig ID defnyddiwr unigryw (manylion mewngofnodi) a chyfrinair neu god cyfrin. Dylid defnyddio cyfrineiriau gwahanol ar gyfer systemau a dyfeisiau gwahanol.

Ni ddylid ysgrifennu cyfrineiriau na manylion mewngofnodi i lawr ac ni ddylid eu rhannu ag unrhyw un arall.

Mae'n ofynnol bod systemau gweithfan, rhwydwaith a lefel gwasanaeth yn gorfodi polisi o newid cyfrinair pob 365 diwrnod a bod y cyfrinair yn cwrdd â'r cymhlethdod isod:

- o leiaf wyth nod o hyd;
- cymysgedd o gymeriadau uchaf ac isaf;
- cymysgedd o rifau a llythrennau

Isafswm yw'r uchod a byddai'n arfer gorau i ddefnyddio cyfrinair hirach sy'n cynnwys nifer o eiriau nad ydynt yn gysylltiedig, er enghraifft:- Cŵn-Ymgyfreithad-Picnic-230721!

Lle nad yw'n bosibl gorfodi cymhlethdod cyfrinair o fewn system, cyfrifoldeb gweinyddwr y system yw cyfarwyddo staff bod yn rhaid gosod cyfrineiriau â llaw i fodloni'r gofynion hyn. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob system, hyd yn oed os yw'r weithfan eisoes wedi'i ddiogelu gan gyfrinair. Cyfrifoldeb gweinyddwr y system yw sicrhau bod gan holl ddefnyddwyr y system eu henw defnyddiwr eu hunain ac na chaniateir rhannu manylion adnabod. Mae hyn yn berthnasol i bob system sydd naill ai'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd neu sydd newydd ei chaffael.

Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth sy'n gyfrifol am wirio cofnodion y system ar gyfer gweithgarwch afreolaidd / twyllodrus. Dylai asesiadau risg y Perchennog Asedau Gwybodaeth ei hun benderfynu pa mor rheolaidd y dylid gwneud hyn. Mae rhagor o ganllawiau ar gyfrifoldebau Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth a Pherchnogion Asedau Gwybodaeth ar gael ar dudalennau Llywodraethu Gwybodaeth MonITor neu drwy gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

Bydd y tîm Seilwaith TG yn analluogi dyfeisiau defnyddwyr nad ydynt wedi'u defnyddio am gyfnod o 8 wythnos.

Er mwyn caniatáu archwilio gweithgareddau, bydd yr holl staff yn mewngofnodi gyda'u cyfrif mewngofnodi eu hunain ac nid gyda chyfrifon Gweinyddwr neu wraidd. Bydd cyfrifon ar wahân yn cael eu defnyddio gan staff TG ar gyfer gweithgareddau busnes o ddydd i ddydd a'r gweithgareddau hynny sy'n gofyn am freintiau gweinyddol.

Er mwyn atal pobl anawdurdodedig rhag cael mynediad i weithfannau, bydd yr ysgol yn analluogi'r gallu i gychwyn cyfrifiaduron o gyfryngau anawdurdodedig megis gyriannau USB.

Lle mae angen mynediad a rennir i'r un weithfan, bydd mynediad bob amser yn cael ei roi drwy fanylion mewngofnodi defnyddiwr unigol ei hun ac nid drwy rannu cyfrineiriau heb awdurdod.

10. Dyfeisiau Cludadwy a Dyfeisiau Symudol

Mae'r canlynol yn enghreifftiau, ond ddim yn gyfyngiedig, o ddyfeisiau cludadwy a dyfeisiau symudol:

- gliniaduron, dyfeisiau tabled, iPods, iPads, ffonau symudol, Chwaraewyr MP3, camerâu digidol ac ati;
- DVDs, CDs, cofion bach USB (gyriannau pen neu yriannau fflach), gyriannau caled allanol ac ati;
- cardiau cof, casetiau wrth gefn a dyfeisiau eraill sydd â'r gallu i gadw gwybodaeth electronig.

Mae dyfeisiau cludadwy a dyfeisiau symudol yn peri risg uchel o ddwyn, colled ddamweiniol, mynediad heb awdurdod a difrod.

Mae cyfryngau symudadwy yn peri risg sylweddol i gydymffurfiaeth diogelu data a seiberddiogelwch yr ysgol oherwydd y posibilrwydd o golli data neu gyflwyno cod maleisus. Am y rheswm hwn, gwaherddir defnyddio cyfryngau symudol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

Os oes achos busnes eithriadol, rhaid i Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA) gofnodi hyn gan fanylu ar yr holl risgiau perthnasol, y camau lliniaru sydd i'w rhoi ar waith a bod y Perchennog Asedau Data perthnasol yn derbyn y risgiau. Dylai'r DPIA hefyd ddogfennu pam na fydd dulliau gwaith amgen yn ddigonol i ddiwallu'r angen.

Rhaid gwneud ceisiadau am fynediad i gyfryngau symudadwy drwy docyn ar Borth TG y Ddesg Gwasanaeth TG a bydd yn cynnwys DPIA perthnasol cyn y rhoddir mynediad.

Os caiff yr achos busnes dros fynediad at, a defnydd o ddyfeisiau cyfryngau symudadwy ei gymeradwyo, mae'r adrannau canlynol yn berthnasol a rhaid glynu wrthynt bob amser:

- rhaid i'r holl ddyfeisiau cyfryngau symudadwy ac unrhyw offer a meddalwedd cysylltiedig gael eu prynu gan yr Isadran TG yn unig a'u gosod gan yr Isadran TG;
- ni ddylid byth defnyddio dyfeisiau cyfryngau symudadwy nad ydynt yn eiddo i'r ysgol/awdurdod i storio unrhyw wybodaeth a ddefnyddir i gynnal busnes ysgol, ac ni ddylid eu defnyddio gydag unrhyw offer TG sy'n eiddo i'r ysgol. Bydd y dyfeisiau hyn yn cael eu rhwystro ar gyfrifiaduron a gliniaduron yr ysgol/awdurdod;
- nid oes unrhyw gyfryngau symudadwy o'r tu allan i'r awdurdod i'w defnyddio;
- ni ddylid defnyddio dyfeisiau cyfryngau symudadwy ar gyfer archifo na storio cofnodion fel dewis amgen i offer storio eraill.

Lle na ellir ei osgoi, rhaid amgryptio data sy'n cael ei storio ar ddyfeisiau cyfryngau symudadwy. Bydd cyfryngau symudadwy a brynir gan yr Isadran TG yn gorfodi amgryptio i safon AES 256bit o leiaf.

Cyfrifoldeb defnyddwyr yw cofio'r cyfrinair ar gyfer eu dyfais cof symudadwy a ddarparwyd gan y Cyngor – os caiff ei anghofio ni fydd yr Is-adran TG yn gallu helpu i adennill y data a gedwir.

Ni ddylid defnyddio dyfeisiau cyfryngau symudadwy sydd wedi'u difrodi neu sy'n ddiffygiol. Mae'n ddyletswydd ar bob defnyddiwr i gysylltu â'r Ddesg Gwasanaeth TG pe bai'r cyfryngau symudadwy yn cael eu difrodi.

Rhaid cael gwared â chyfryngau symudadwy nad oes eu hangen mwyach, neu sydd wedi'u difrodi, yn ddiogel er mwyn osgoi datgeliad data. Ni ddylid cael gwared â chyfryngau symudadwy mewn biniau gwastraff swyddfa cyffredinol - dylai defnyddwyr sydd â chyfryngau symudadwy nad oes eu hangen mwyach gysylltu â'r Ddesg Gwasanaeth TG drwy'r Porth TG a gwneud apwyntiad i'w trosglwyddo iddynt. Yna, bydd yr Is-adran TG yn sicrhau eu bod yn cael eu gwaredu'n ddiogel.

Rhaid i unrhyw gynnwys blaenorol o unrhyw gyfryngau y gellir eu hailddefnyddio sydd am gael eu hailddefnyddio, naill ai o fewn y Cyngor neu ar gyfer defnydd personol, gael ei ddileu gan TG. Rhaid i hyn gynnwys dileu'r holl ddata o'r cyfryngau yn drylwyr gyda meddalwedd ac offer arbenigol er mwyn osgoi datgeliad data posibl ac felly rhaid dychwelyd pob dyfais cyfryngau symudadwy nad oes ei hangen mwyach, neu sydd wedi'i difrodi, i'r Isadran TG i'w gwaredu'n ddiogel.

Rhaid cymryd gofal arbennig i ddiogelu'r ddyfais cyfryngau symudadwy yn gorfforol a storio data rhag colled, lladrad neu ddifrod. Rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio dyfeisiau cyfryngau symudadwy i drosglwyddo data ystyried y ffordd fwyaf priodol o gludo'r ddyfais a gallu dangos eu bod yn cymryd gofal rhesymol i osgoi difrod neu golled.

11. Defnyddio Dyfeisiau Personol

Ni fydd aelodau'r staff yn defnyddio dyfeisiau neu yriannau personol (fel cofion bach USB a ffonau symudol) na dyfeisiau cludadwy neu symudol nad ydynt yn eiddo i'r ysgol i storio neu rannu **gwybodaeth bersonol** sy'n ymwneud â busnes ysgol a gwaith.

Ni ddylid byth copïo data ysgol sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol i ddyfais sy'n eiddo personol.

12. Diogelu rhag Meddalwedd Maleisus a Rhaglenni Diangen

Mae'r ysgol yn defnyddio gwrthgynigion meddalwedd a gweithdrefnau rheoli i ddiogelu ei hun rhag bygythiad meddalwedd maleisus a rhaglenni diangen. Mae hyn yn cynnwys firsau, meddalwedd ysbïo a cheffylau trojan. Mae'r posibilrwydd o haint drwgwedd yn fygythiad gwirioneddol a difrifol.

Mae meddalwedd gwrthfirs wedi'i osod ar gyfrifiaduron a gliniaduron i liniaru yn erbyn y risg o faleisus. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn ofalus bob amser, yn enwedig wrth dderbyn atodiadau e-bost, agor dolenni neu ymweld â gwefannau anghyfarwydd.

Mae'r gwaith o osod copïau anghyfreithlon o feddalwedd ar unrhyw ddyfais gyfrifiadurol yn cael ei wahardd. Yn yr un modd, ni chaniateir gosod copïau cyfreithiol o feddalwedd a brynwyd gan ysgol ar offer cartref staff.

Os bydd haint drwgwedd yn cael ei ganfod neu ei amau, rhaid dilyn y weithdrefn ganlynol:

- hysbysu Cynnal a Desg Gymorth TG Cyngor Sir Ynys Môn ar unwaith. Mi fydd Cynnal yn ceisio sefydlu ffynhonnell y feirws a bydd Desg Gymorth TG yr awdurdod yn hysbysu unrhyw sefydliad bartner a defnyddwyr mewnol;
- bydd unrhyw ddyfeisiau yr effeithir arnynt yn cael eu datgysylltu'n gorfforol o unrhyw rwydwaith y maent wedi cysylltu ag ef;
- bydd yr holl ddyfeisiau symudol sy'n gysylltiedig â'r ddyfais yr effeithir yn cael eu gwirio'n briodol am bresenoldeb yr haint.

13. Diogelwch Storio

Rhaid storio gwybodaeth bersonol mewn lleoliad diogel gyda mynediad ar gael i bersonau awdurdodedig sydd angen mynediad i'r wybodaeth bersonol benodol honno yn unig. Rhaid diogelu a chadw'r holl wybodaeth bersonol yn ddiogel er mwyn atal colled, camddefnydd neu ddifrod.

13.1. Cofnodion Papur

Dylid cadw gwybodaeth bersonol dan glo lle bynnag y bo'n bosibl.

Dylai unrhyw ddroriau, cypyrddau, cabinetau, ystafelloedd storio neu gynwysyddion storio fod yn gadarn ac wedi'u cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Ni ddylid gadael dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol ar ddesgiau swyddfa ac ystafell ddosbarth, ar fyrddau ystafelloedd staff na'u pinio i hysbysfyrddau lle ceir mynediad cyffredinol.

Dylid cadw dogfennau mewn lleoliad diogel a hygyrch sy'n cael ei ddiogelu rhag llifogydd, lleithder ac elfennau eraill. Efallai y bydd angen cadw rhai dogfennau mewn cynwysyddion aerdyn i'w diogelu rhag difrod amgylcheddol.

Mewn rhai amgylchiadau, gall cofnodion ysgol cael eu adneuo gyda Archifdy Ynys Môn ar gyfer eu cadw yn ddiogel. Cyfeiriwch at *Polisi Trosglwyddo Cofnodion Ysgol i Archifdy Ynys Môn*.

13.2. Cofnodion Electronig

Os cedwir gwybodaeth bersonol yn electronig, mae angen i fesurau diogelwch technegol priodol fod ar waith ar bob dyfais fel ffugenwi, amgryptio neu ddiogelu â chyfrinair.

Bydd data wrth gefn yn cael ei arbed yn rheolaidd yn unol â gweithdrefnau gwneud copi wrth gefn.

14. Rhannu Gwybodaeth yn Ddiogel

Mae gwahanol ddulliau o rannu gwybodaeth yn ddiogel. Wrth rannu gwybodaeth bersonol, dylid defnyddio dull priodol a diogel bob amser.

Os yw rhywun yn gofyn am wybodaeth bersonol, cymerir camau rhesymol i wirio pwy yw a chyfeiriad y person sy'n gwneud y cais ac a oes ganddo'r awdurdod i ofyn am wybodaeth.

Mae gan yr ysgol hawl i ofyn am ddogfennaeth berthnasol i ddangos bod gan berson yr awdurdod i ofyn am wybodaeth a gall ofyn am dystiolaeth o gyfrifoldeb rhiant dros blentyn os yw rhiant yn gwneud cais gan wrthrych y data ar ran plentyn.

Dylid dilyn y *Polisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion* mewn perthynas â cheisiadau gan unigolion am eu gwybodaeth bersonol.

Bydd yr ysgol yn dilyn y *Weithdrefn ar gyfer Rhannu Gwybodaeth gydag Awdurdodau'r Heddlu yn y Deyrnas Unedig* (Gwynedd a Môn) wrth ymdrin â cheisiadau gan yr Heddlu.

14.1. Dros E-bost

Bydd staff yr ysgol ond yn defnyddio cyfrif e-bost swydddogol, awdurdodedig i gyfathrebu mewn perthynas â busnes yr ysgol. Ni fydd staff yr ysgol yn defnyddio eu cyfrif e-bost personol i gyfathrebu â disgyblion ac i rannu data personol.

Wrth anfon e-bost sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol, rhaid i'r anfonwr wirio bod cyfeiriad e-bost y derbynnydd yn gywir ac na chaiff neb arall na ddylai dderbyn yr e-bost ei gopïo fel derbynnydd. Mae'n bosibl hofran dros y cyfeiriad e-bost i wirio manylion pellach am y derbynnydd os yw'n gyfeiriad mewnol ac efallai y byddai'n briodol ychwanegu ffotograffau at gyfrifon e-bost mewnol fel ffordd ychwanegol o ddilysu'r derbynnydd.

Os ydych yn anfon unrhyw e-bost at nifer o dderbynwyr y tu allan i'r ysgol, dylid defnyddio'r cyfleuster copi dall (*bcc*) fel na all derbynwyr weld cyfeiriadau e-bost derbynwyr eraill.

Rhaid ystyried cyn ymateb i e-bost grŵp neu gopïo eraill yn yr e-bost, os oes angen i'r holl dderbynwyr dderbyn yr wybodaeth ac os oes ganddynt reswm dilys dros ei derbyn.

Rhaid nodi negeseuon e-bost sy'n cynnwys data categori personol ac arbennig gan ddefnyddio termau dosbarthu data (SWYDDOGOL neu SWYDDOGOL SENSITIF) ym maes pwnc yr e-bost. Ni ddylid cynnwys gwybodaeth bersonol yn y maes pwnc.

Efallai y byddai'n briodol gofyn i'r derbynnydd gadarnhau ei fod wedi derbyn yr e-bost os yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol.

14.1.1. Cyfrif E-bost HWB- amgryptio

Yn ddiodyn, mae system e-bost HWB wedi'i ffurfweddu i amgryptio ei sgwrs â systemau e-bost eraill wrth anfon a derbyn negeseuon. Dylai defnyddwyr fod yn ymwybodol nad yw hyn yn gwarantu cyfrinachedd y neges mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft:

- nid yw system e-bost y derbynnydd yn cefnogi amgryptio;
- mae'r e-bost derbynnydd anghywir wedi'i gofnodi;
- bod y derbynnydd yn anfon yr e-bost at berson anawdurdodedig;
- mae'r neges yn cael ei hargraffu gan y derbynnydd

Am y rhesymau hyn, dylid amgryptio data a anfonir yn allanol a ddsberthir fel SWYDDOGOL-SENSITIF. Gweler y canllaw- 'Amgryptio e-byst a anfonir o gyfeiriadau HWB' ar y Porth TG i gael arweiniad ar hyn-

<https://desggymorth.ynysmon.gov.uk/support/solutions/articles/50000102046-hamgryptio-negeseuon-wedi-gyrru-o-ebyst-hwb>

Os nad ydych yn defnyddio e-bost wedi'i amgryptio, dylai dogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol gael eu diogelu gyda chyfrinair, gyda'r cyfrinair yn cael ei rannu ar wahân ac yn ddiogel gyda'r derbynnydd arfaethedig. Fel arall, bydd angen dad-bersonoli gwybodaeth bersonol o fewn yr e-bost (e.e. defnyddio blaenlythrennau neu rifau adnabod unigryw'r ysgol).

14.1.2. Mesurau Diogelwch E-bost

Bydd yr holl negeseuon e-bost a dderbynnir gan yr ysgol yn cael eu trosglwyddo drwy borth diogelwch cyn cyrraedd blychau post y defnyddiwr; os yw'r e-bost yn cael ei nodi fel bygythiad posibl, caiff ei roi mewn cwarantyn neu ei wrthod gan y system.

Mae'r gosodiadau diogelwch e-bost canlynol wedi'u ffurfweddu yn y denantiaeth HWB:

- Atodiadau Diogel: yn darparu amddiffyniad *zero-day* i ddiogelu eich system negeseuon, drwy wirio atodiadau e-bost ar gyfer cynnwys maleisus. Mae'n llwybro'r holl negeseuon ac atodiadau nad oes ganddynt lofnod firws/malware i amgylchedd arbennig, ac yna'n defnyddio technegau dysgu a dadansoddi peiranyddol i ganfod bwriad maleisus. Os na cheir unrhyw weithgaredd amheus, anfonir y neges i'r blwch post.
- Dolenni Cyswllt Diogel: yn darparu gwiriad wrth i chi glicio ar URLs, er enghraifft, mewn negeseuon e-bost a ffeiliau Office. Mae diogelwch yn parhau ac yn berthnasol ar draws eich amgylchedd negeseua ac Office. Mae dolenni cyswllt yn cael eu sganio ar gyfer pob clic: mae dolenni cyswllt diogel yn parhau i fod yn hygyrch ac mae dolenni cyswllt maleisus yn cael eu rhwystro'n ddeinamig.

- Atodiadau Diogel ar gyfer SharePoint, OneDrive, a Microsoft Teams: yn diogelu'r ysgol pan fydd defnyddwyr yn cydweithio ac yn rhannu ffeiliau, drwy adnabod a blocio ffeiliau maleisus mewn safleoedd tîm a llyfrgelloedd dogfennau;
- Anti-phishing: yn canfod ymdrechion i ddynwared eich defnyddwyr a pharthau mewnol neu wedi'u personoleiddio. Mae'n cymhwyso modelau dysgu peirianyddol ac algorithmau canfod amheronol uwch i osgoi ymosodiadau *phishing*. I ddysgu mwy, gweler *Configure anti-phishing policies yn Microsoft Defender for Office 365*;
- Anti-spam: yn diogelu e-bost yr ysgol rhag e-byst sothach;
- Anti-malware: diogelu e-bost yr ysgol rhag *malware*.

14.2. Drwy'r Post

Os yw gwybodaeth bersonol yn cael ei hanfon drwy'r post, dylid selio'r wybodaeth o fewn amlen gadarn a dylid marcio'r amlen gan ddefnyddio termau dosbarthu data (SWYDDOGOL neu SWYDDOGOL SENSITIF).

Os yw'r wybodaeth yn cynnwys data categori arbennig neu os ystyrir ei bod o natur sensitif, dylid anfon yr wybodaeth drwy bost wedi'i olrhain neu gan gludwr lle y bo'n briodol. Efallai y byddai'n briodol gofyn i'r derbynnydd gadarnhau ei fod wedi'i dderbyn. Dylid gwneud cofnod o'r dyddiad yr anfonwyd yr wybodaeth a'r dull â ddefnyddiwyd.

Dylid defnyddio cludwyr trafniadaeth dibynadwy bob amser a rhaid i ddeunydd pacio fod yn ddigonol i ddiogelu'r cynnwys rhag difrod wrth ei gludo.

14.3. Dros y Ffôn

Os yw'r ysgol wedi derbyn cais i rannu gwybodaeth bersonol dros y ffôn, rhaid i staff yr ysgol gadarnhau'n gyntaf mai'r sawl sy'n gwneud cais yw'r sawl y mae'n honni i fod, a bod ganddynt reswm dilys dros gael gweld yr wybodaeth. Mae angen cadarnhad gan weithwyr proffesiynol ac aelodau o'r teulu sy'n gofyn am wybodaeth.

Efallai y byddai'n briodol gofyn i gais ffurfiol gael ei wneud yn ysgrifenedig.

Unwaith y bydd hunaniaeth wedi'i chadarnhau, dim ond i'r person sydd wedi gofyn amdani y dylai'r ysgol ddarparu gwybodaeth bersonol. Os nad ydynt ar gael, dylid gadael neges iddynt alw'n ôl. Ni fydd neges fanwl (sydd yn gwneud datgeliad) yn cael ei gadael gyda rhywun arall nac ar neges llais.

Bydd gofal bob amser yn cael ei gymryd wrth rannu gwybodaeth bersonol dros y ffôn o bwy allai glywed yr alwad. Bydd cofnod yn cael ei gadw o unrhyw wybodaeth bersonol sydd wedi'i datgelu yn ystod galwad ffôn - dylai hyn gynnwys manylion am ddyddiad ac amser y datgeliad, y rheswm amdano ac, os yw'n briodol, pwy a awdurdododd y datgeliad.

14.4. Wyneb i Wyneb

Efallai mai'r ffordd fwyaf diogel o rannu gwybodaeth bersonol yw drwy ei chyflwyno'n bersonol. Gall staff yr ysgol gyflwyno gwybodaeth bersonol wyneb yn wyneb os yw'r Pennaeth neu aelod arall o'r uwch dîm rheoli wedi cytuno ar hyn.

Dylid cadw cofnod o unrhyw wybodaeth bersonol sydd wedi'i chyflwyno wyneb yn wyneb; manylion y sawl a ddanfonodd yr wybodaeth; y dyddiad a'r rhesymau pam.

Rhaid cludo gwybodaeth bersonol bapur mewn bocsy y gellir ei gloi, ffeil wedi'i selio neu amlen wedi'i marcio â'r term dosbarthu data priodol (SWYDDOGOL neu SWYDDOGOL SENSITIF).

15. Cludo Gwybodaeth yn Ddiogel

